


Adroddiad i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	
Dyddiad	19 Hydref 2026	
Swyddog Arweiniol	Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	
Swyddog Cyswllt	Jon Blyde, Rheolwr Perfformiad a Chynllunio Corfforaethol	
Pwnc	Asesiad Perfformiad Blynyddol 2025/26	

PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Cyflwyno'r Asesiad o Berfformiad Blynyddol 2025/26 i aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae Adran 15 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi asesiad o berfformiad yr awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol, a hynny erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol wedi'r flwyddyn ariannol dan sylw.
- 3 Mae darpariaeth yn Atodlen 1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus gyhoeddi adroddiadau blynyddol am eu cynnydd o ran cyflawni eu hamcanion llesiant.

SYLWADAU GAN DÎM ARWEINYDDOL Y GWASANAETH

- 4 Gofynnwyd am fân ddiwygiadau i'r geiriad a'r fformatio drwy'r ddogfen, ac mae'r rheiny wedi'u gwneud.

ARGYMHELLION

- 5 Argymhellir bod yr Aelodau yn:
 - i) **nodi cynnwys yr Asesiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer cyfnod 2025/26; ac yn**
 - ii) **cymeradwyo Asesiad Perfformiad Blynyddol 2025/26 i'w gyhoeddi cyn y dyddiad cau statudol sef 31 Hydref 2026.**

CEFNDIR

- 6 Mae'r Asesiad Perfformiad Blynyddol yn hunanasesiad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion gwelliant (Mesur 2009) a Llesiant (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015) y flwyddyn flaenorol.
- 7 Mae gan Awdurdodau Tân ac Achub hyblygrwydd i ddewis sut y byddant yn adrodd ar eu perfformiad, ond er mwyn sicrhau cysondeb o ran adrodd ac atebolrwydd, argymhellir bod pob adroddiad yn cynnwys:
 - Tystiolaeth o'r prosesau y mae'r ATA wedi'u defnyddio er mwyn cyflawni ei ddyletswydd gyffredinol i wella, fel sydd wedi'i nodi yng nghynllun gwella'r flwyddyn flaenorol;
 - Asesiad cryno o farn yr ATA ynghylch ei lwyddiant wrth fodloni ei amcanion gwella, fel sydd wedi'u nodi yng nghynllun gwella'r flwyddyn flaenorol;
 - Datganiad o berfformiad ar sail yr holl Ddangosyddion Perfformiad statudol, p'un a ydynt yn ymwneud â'r amcanion gwella yn uniongyrchol neu beidio;
 - Manylion eraill ynghylch gwybodaeth am berfformiad a'i defnydd, gan gynnwys canlyniadau adolygiadau cymheiriaid, unrhyw asesiadau a wnaed gan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub, a ffynonellau gwybodaeth ansoddol eraill gan gynnwys data meincnodi;
 - Asesiad o'r perfformiad trwy gymharu â pherfformiad yr ATA mewn blynyddoedd blaenorol a thrwy gymharu â chyrrff cyffelyb eraill (gan gynnwys Awdurdodau Tân ac Achub eraill), i'r graddau y bo hyn yn ymarferol;
 - Manylion am y ffyrdd y mae'r ATA wedi arfer ei bwerau cydweithredu yn ystod y flwyddyn adrodd, gan gynnwys manylion ynghylch a yw gweithgareddau cydweithredol wedi arwain at y canlyniadau a fwriadwyd; ac
 - Unrhyw ddatganiadau o weithgareddau a gyhoeddwyd gan yr ATA o ganlyniad i unrhyw adroddiadau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru dan Adran 19 y Mesur i'r ATA hwnnw yn ystod y flwyddyn adrodd honno.

GWYBODAETH

- 8 Mae dyluniad yr Asesiad Perfformiad Blynyddol hwn yn adlewyrchu dyluniad 'Ein 5 Egwyddor', ac mae'n gyson â dyluniad Asesiad Perfformiad Blynyddol 2024–25
- 9 Gan mai dyma ail flwyddyn y cynllun pum blynedd, mae trosolwg o'r cynnydd a wnaed dros oes y cynllun wedi'i gynnwys ynghyd â'r diweddariad blynyddol ynghylch cynnydd.
- 10 Mae'r Asesiad Perfformiad Blynyddol yn cynnwys Siarter Ymateb i Danau Annedd Cymru Gyfan.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae cyhoeddi'r Asesiad Perfformiad Blynyddol yn un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
Cyllideb	Dim goblygiadau
Cyfreithiol	Mae cyhoeddi'r Asesiad Perfformiad Blynyddol yn un o ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
Staffio	Dim goblygiadau
Cydraddoldebau /Hawliau Dynol/y Gymraeg	Bydd yr Asesiad Perfformiad Blynyddol yn cael ei gyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg.
Risgiau	Dim goblygiadau